# Fe'ch gwahoddir i: Blynyddoedd yr arddegau, gweithdai i rieni



Yn dod â gobaith i chi wrth i chi geisio delio â heriau blynyddoedd yr arddegau a'r newidiadau yn y berthynas rhwng rhiant a phlentyn. Mae'r saith sesiwn wedi ei dylunio i'ch helpu i gadw'r cysylltiad gyda'ch plentyn trwy ddeall eu byd a datblygu sgiliau cyfathrebu da.

**Sut mae'n gweithio?**

Mae rhannu syniadau gyda rhieni eraill yn rhan allweddol o'r cwrs, a gallwn ddefnyddio astudiaethau achos a sefyllfaoedd go iawn i helpu.  Mae bob sesiwn yn cynnwys lle i gynllunio unrhyw newidiadau rydych eisiau eu gwneud yn eich ffordd o fagu plant, ac o sesiwn 2 bydd cyfle i drafod sut rydych yn llwyddo i roi hyn ar waith yn y cartref.

**Beth yw cynnwys y cwrs?**

Rydym yn dechrau trwy edrych ar y newid o blentyndod i'r arddegau a'r hyn y gobeithiwn ei ddysgu o'r cwrs. Rydym yn edrych ar sut y gallwn fodloni anghenion emosiynol ein plentyn, gan ystyried eu natur a'u 'ieithoedd cariad'.

Camu mewn i esgidiau ein plant a meddwl sut y gallwn helpu gyda'r newidiadau niferus sy'n digwydd sydd nesaf: yr her yw cadw'r cyswllt! Rydym yn ystyried ein dulliau o fagu plant, ei effaith ar ein plentyn yn ei arddegau, a dysgu am bŵer cysondeb. Mae annog cyfrifoldeb a thrafod rheolau'r tŷ yn rhan o'r rhaglen hefyd!

Un o'r heriau mwyaf i rieni rhai yn eu harddegau yw cyfathrebu. Rydym yn edrych ar ei wella trwy wrando'n dda, gan ddefnyddio empathi a deall iaith y corff. Mae sut rydym yn ymdrin â gwrthdaro hefyd yn allweddol, dewis eich brwydrau, ystyried eich dull dicter a datblygu sgiliau trafod.

Bydd y sesiwn olaf yn ein helpu i edrych ar sut rydym yn cyfrannu heb yn wybod at ymddygiad negyddol trwy ein hymatebion. Rydym hefyd yn ystyried y gwerthoedd rydym eisiau eu trosglwyddo i'n plant a sut i greu atgofion da.

**Teitlau'r sesiynau:**

- Sesiwn 1 - Natur ac anghenion emosiynol
- Sesiwn 2 - Pam ei fod yn anodd bod eich arddegau
- Sesiwn 3 - Dulliau o rianta
- Sesiwn 4 - Cyfathrebu
- Sesiwn 5 - Ymdrin â gwrthdaro
- Sesiwn 6 - Y Materion mawr
- Sesiwn 7 - Creu teuluoedd cadarn

Os hoffech ddod i'r gweithdai hyn byddant yn cael eu cynnal yn Ysgol Morgan Llwyd yn Ebrill 2024. Llenwch eich mynegiant o ddiddordeb isod, rhowch y ffurflen i'r ysgol a byddwn mewn cysylltiad.

…………………………………………………………………………………………………………………………
.

Hoffwn ddod i'r gweithdai blynyddoedd yr arddegau i rieni

Enw:

Cyfeiriad:

Rhif cyswllt

Cyfeiriad e-bost: